Qualifications & Assessment
Cymwysterau ac Asesu
WJEC, 245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX
029 2026 5000 exams@wjec.co.uk www.wjec.co.uk
CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
029 2026 5000 arholiadau@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

☎ Direct / Uniongyrchol

**Circular No. 43**

Our reference / Ein cyfeirnod
CW/LG/Circ.No.43
Contact / Cysylltwch â

Date / Dyddiad
February 2021

Dear Sir/Madam

**Re: Qualifications Wales Approved WJEC GCSEs, AS and A levels**
**FAO: Teachers of subjects with NEA units**

The Minister for Education announced on 10th November 2020 that end of year examinations will not go ahead in Wales in summer 2021. Furthermore, in a statement made on 20th January 2021, the Minister for Education confirmed that:

*'learners undertaking GCSE, AS and A levels approved by Qualifications Wales will have their qualifications awarded through a Centre-Determined Grade model….. Qualifications Wales will work with WJEC, supported by the Design and Delivery Advisory Group (DDAG), to provide an assessment framework to support schools and colleges in developing their assessment plans, which should demonstrate sufficient coverage of key concepts to allow learners to progress, and detail for how the centre has determined a learner's grade.'*

Following this announcement, we can confirm that in 2021:

- centres may relax NEA controls
- centres are not required to submit marks for NEA to WJEC
- internally assessed NEA will not be moderated by WJEC and externally assessed NEA will not be conducted and marked by WJEC (this includes those subjects normally assessed by a visiting examiner or moderator)
- all NEA assessment windows and deadlines are cancelled
- we will provide a suite of past papers, adapted appropriately, for centres to use to assess units usually assessed by examination. Use of these assessments is recommended but optional.

We have produced a short guidance document with advice for completion of NEA at home. Please ensure that this document is provided to all relevant staff.

Further information on alternative arrangements for awarding Qualifications Wales' approved qualifications in the summer 2021 series will be available shortly.

Yours faithfully

**ELAINE CARLILE**

Director of Assessment Delivery

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

Qualifications & Assessment
Cymwysterau ac Asesu

WJEC, 245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX
029 2026 5000 exams@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
029 2026 5000 arholiadau@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

☎ Direct / Uniongyrchol

**Cylchlythyr Rhif 43**

Our reference / Ein cyfeirnod

CW/LG/Rhif.43

Cysylltwch â / Contact

Date / Dyddiad

February 2021

Annwyl Syr/Madam

**Parthed: Cymwysterau CBAC TGAU, UG a Safon Uwch a Gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru**
**At sylw: Athrawon pynciau ag unedau Asesiad Di-arholiad**

Ar 10 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn yn digwydd yng Nghymru yn haf 2021. Ar ben hynny, mewn datganiad ar 20 Ionawr 2021, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y canlynol:

*'defnyddir model Graddau wedi'u pennu gan y Ganolfan i ddyfarnu graddau dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru….. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda CBAC, a chânt eu cynorthwyo gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, i ddarparu fframwaith asesu i helpu ysgolion a cholegau i ddatblygu eu cynlluniau asesu. Dylai'r cynlluniau asesu ddangos digon o sylw i gysyniadau allweddol i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen, a manylion am sut mae'r Ganolfan wedi pennu gradd y dysgwr.'*

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gallwn gadarnhau'r canlynol yn 2021:

- gall canolfannau lacio rheolaethau'r Asesiadau Di-arholiad
- nid oes gofyn i ganolfannau gyflwyno marciau Asesiadau Di-arholiad i CBAC
- ni fydd CBAC yn cymedroli Asesiadau Di-arholiad a asesir yn fewnol ac ni fydd CBAC yn cynnal ac yn marcio Asesiadau Di-arholiad a asesir yn allanol (mae hyn yn cynnwys y pynciau hynny y byddai arholwr neu gymedrolwr ymweld yn eu hasesu fel arfer)
- mae pob cyfnod asesu a therfyn amser ar gyfer Asesiadau Di-arholiad wedi'i ddileu
- byddwn yn darparu cyfres o gyn-bapurau, wedi'u haddasu'n briodol, i'w defnyddio gan ganolfannau i asesu unedau sy'n cael eu hasesu drwy arholiad fel arfer. Argymhellwn eich bod yn defnyddio'r asesiadau hyn ond chi piau'r dewis.

Rydym wedi llunio dogfen fer o ganllawiau yn cynnwys cyngor ar gyfer cwblhau Asesiadau Di-arholiad gartref. Gofynnwn i chi wneud yn siŵr bod y ddogfen hon wedi'i darparu i bob aelod perthnasol o staff.

Bydd gwybodaeth bellach ynghylch trefniadau dyfarnu cymwysterau wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru yng nghyfres haf 2021 ar gael yn fuan.

Yn gywir

**ELAINE CARLILE**

Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Asesu

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)